EISTEDDFOD TYDDEWI 2019

Cynhaliwyd Eisteddfod Flynyddol Gŵyl Dewi ar 28 Chwefror yn Neuadd y Ddinas, Tyddewi. Mwynhaodd cynulleidfa fawr y cystadlaethau llwyfan a gweld y nifer fawr o geisiadau yn y cystadlaethau crefft, blodau, llenyddiaeth, ffotograffiaeth a choginio.
Enillwyd y Gadair, am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr holl gystadlaethau, gan Jane James.
Enillwyd y Darian, a roddwyd gan aelodau a ffrindiau Capel Methodistiaid Calfinaidd Caerfarchell am y nifer uchaf o bwyntiau yn y cystadlaethau celf a chrefft, gan Julie Evans.
Enillwyd Cystadleuaeth y Pin Rholio, am y nifer uchaf o bwyntiau yn y cystadlaethau coginio gan Jane James.
Enillwyd y cwpan arian ar gyfer unawd emyn, a roddwyd gan John a Glenys James, gan y Parch Wiliam Owen, ac enillwyd Tarian Goffa Thomas James, Ysgeifiog, ar gyfer dawnsio gwerin, gan Dawnswyr Penrhyn Dewi.
Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r holl gystadleuwyr, y beirniaid, yr arweinydd, y cyfeilyddion, Friends in Harmony a'r cynorthwywyr am wneud y digwyddiad yn gymaint o lwyddiant.

Y thema ar gyfer eisteddfod y flwyddyn nesaf, a gynhelir ar 28 Chwefror, yw Tywydd.